

Rhifyn pdf eto!

Gwn ei ddyfod mis y mêl
Gyda'i firi yn yr helyg

Willia

RHIF 435 MAI 2021
AM DDIM!

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

Dadleuwyr Disglair

Llongyfarchiadau enfawr i dîm siarad cyhoeddus blwyddyn 10 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe am gyrraedd rownd derfynol Prydain o gystadleuaeth siarad gyhoeddus yr ESU (English Speaking Union).

Braint ac anrhydedd oedd gweld y tîm siarad cyhoeddus yn ennill rownd terfynol Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom eleni! Mae'r tîm wedi serennu a braint oedd eu gweld yn cystadlu yn erbyn timoedd gorau Prydain ddydd Sadwrn, 24 Ebrill. Rhaid llongyfarch y disgyblion, sef **Steffan Thomas** fel cadeirydd, **Jonah Eccott** fel cwestiynydd, a'r siaradwr, **Sonny Tregembo**.



Mae'r bechgyn o flwyddyn 10 wedi mwynhau'r siwrne wrth iddynt ennill rowndiau rhanbarthol a chenedlaethol, ac edrychwn ymlaen at gystadlu unwaith eto flwyddyn nesaf.

Braint hefyd oedd cael eu cyfweld ar gyfer raglen Prynhawn Da yn datgan llwyddiant y tîm. Diolch i Mr Chris Shaw (Pennaeth yr Adran Saesneg) em ei hyfforddi a da iawn chi am gynrychioli'r ysgol!

Deg Marc i'r Prifardd Robot Powell yn Ail Rownd *Talwrn y Beirdd*

Llwyddodd tîm Tanau Tawe, o dan arweiniad y Prifardd Robot Powell, i gyrraedd ail rownd *Talwrn Y Beirdd* eleni, cyn i dîm Y Tir Mawr eu curo.

Enillodd capten Tanau Tawe 10 marc am y cywydd arbennig hwn, Camau, sy'n darlunio tri chyfnod bywyd person:

Yn mynnu gwneud ei smonach,
fe ddaw i'n byd feddwyn bach
â swyn yn ei simsanu ;
onid hwn yw clown y tŷ?

Dros fryniau mae'i wadnau o
Â hyder yn ei gludo ;
Twmpathau yw llethrau'r llus,
A'r foel yn filltir felys.

A heno fe simsana
Ger ei wal fel gŵr ar iâ ;
Mur castell yw'r stâr bellach,
A hyd ei fyd ei rŵm fach.



Un o luniau'r Athro Prys Morgan, gweler tudalen 3.

CLWB IEUENCTID ABERTAWE

Pob nos Fercher - 4:30yp - 5:30yp

Cyfarfod cyntaf Ebrill 14 2021 lle byddwn ni'n chwarae gemau hwyl

Blwyddyn 7-9
Dros Zoom

Cysylltwch gyda:
niaeleri.org
neu
datblygu@menterabertawe.org

Atgofion Dr Bruce Lervy wrth ddarllen *Filò*

Wncwl Victor a'r Japaneaid.

Roedd ewythr fy ngwraig yn garcharor gyda'r Japaneaid. Cafodd ei ddal ym Malaysia a'i orfodi i weithio yn adeiladu rheilffordd Burma. Doedd dim digon o fwyd iddyn nhw a chawson nhw eu cam-drin yn gor-



fforol bob dydd. Roedd e'n lwcus i oroesi. Pan ddychwelodd e i Gymru, dim ond pum stôn roedd e'n ei bwysu. Hefyd roedd e'n dioddef o'r dicâu. Treuliodd e dros flwyddyn yn ysbyty Talgarth. Wedyn roedd e'n casáu popeth o Japan.

Storiâu am ffermydd a'r berthynas rhwng carcharorion a bobl leol.

George Lewis Porthcawl Cefnder-yng-nghyfraith i fi yw George. Roedd gan ei rieni fferm ar bwys Porthcawl yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae George yn cofio ei dad yn dod â charcharorion o'r Gwersyll Carchar y tu fas i Ben-y-bont. Roedd rhai o'r Eidal ac eraill o'r Almaen. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon gweithio yn y caeau yn yr awyr iach. Roedd rhai'n cwyno achos bod yn rhaid iddyn nhw wneud gwaith caled o doriad gwawr tan fachlud haul. Roedd rhai heb gael profiad o waith corfforol.

Glog Ddu

Yn ystod y rhyfel roedd fy nhad i'n gweithio fel gyrrwr lorïau petrol o dociau Caerdydd. Swydd beryglus iawn pan oedd *Luftwaffe* wedi bom-

io Caerdydd. Yn y gaeaf aeth y teulu i helpu ffrindiau perchnogion fferm, Glog Ddu, Llangain, (hanner ffordd rhwng Caerfyrddin a Llansteffan). Aethon ni amser cynhaeaf gwair. Roedd y dynion yn ymgasglu mewn rhes; pob un ddwy lath i'r ochr y tu ôl i'r dyn nesaf.

Roedd y dyn ar y chwith eithaf yn swingio ei gryman i dorri'r gwair. **Pan oedd e'n cyrraedd ddwy lath** o'i flaen, roedd yr ail ddyn yn dechrau. Wedyn y trydydd ac ati. Pan roedd y dyn olaf yn cyrraedd dwy lath, roedd y merched yn dechrau casglu'r gwair mewn stwc. Wedyn roedd plant fel fi yn dod, i gasglu'r **darnau yr oedd y merched wedi'u colli**. Doedd dim rheswm dros wneud hyn, heblaw bod yn sicr bod y plant yn ddigon pell o'r cryman marwol.

Fferm Pentyla

Roedd teulu Evans yn byw drws nesaf i ni yn Nhrealaw. Roedd brawd Mr Evans yn berchennog fferm Pentyla ar fynydd Pen Rhys. Dw i'n cofio mynd i'r fferm unwaith amser cneifio. Ymgasglodd dwsin o ffermwyr i gneifio'r defaid mewn un diwrnod. Fy swydd i oedd stampio'r defaid â symbol y **fferm ar ôl i'r cnu gael ei dorri**. Ro'n i'n defnyddio ffon bren gyda marc neilltuol y fferm a bwced yn llawn o liw coch. **Ar wahân i'r gwaith caled roedd cyflenwad cyson o "gwrw bach"**. O ganlyniad, roedd y sgwrsio a'r hwyl yn cynyddu wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen. O'r diwedd dim ond un ddafad oedd yn disgwyl cael ei chneifio; hen hwrdd mawr oedd e. Aeth bugail profiadol **ati i'w gneifio**. **Ar ôl torri'r cnu, cyfarwyddodd y bugail fi i fynd yn agos a rhoi'r stamp ar y hwrdd**. Ar yr un pryd ag y codais i'r stamp, dyma'r bugail yn rhyddhau'r hwrdd. Tarodd yr hwrdd y bwced ac arllwys yr hylif coch drosof i gyd. Chwarddodd pawb am fy mhen. Do'n i ddim yn gweld bod y sefyllfa'n ddoniol, nac ychwaith fy mam pan welodd hi fy nillad!

Ffrindiau Ysgol o dras Eidalaidd Roedd sawl disgybl yn yr ysgol yn blant o deuluoedd Eidalaidd. Roedd pob un yn berchennog siop

'bracci'. Yr unig wahaniaeth oedd eu bod nhw'n diflannu o'r dosbarth pan oedd gwrs grefyddol. Rydyn ni'n cwrdd â'n gilydd bob hyn a hyn i gael pryd o fwyd ddwywaith y flwyddyn.

Filò gan Siân Melangell

Dafydd – Barn Cylch

Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Marciau: yn amrywio o 5.5 i 7.5

"Ces i fy swyno—elfen o ramantu yma. Disgrifiadau hynod o fyw."

"Wedi taro deuddeg gyda fi, rhaid dweud."

"Gorymdrech o ran yr arddull, felly roedd hi'n anodd ei darllen. Doedd rhywun ddim yn adnabod cymeriadau fel cymeriadau unigol, darlun o griw a gafwyd ar y cyfan."

"Gorddefnydd o'r Eidal, a Filò tua mil o weithiau, ond y darnau cignoeth am y rhyfel yn dda iawn."

"Darlun o'r gymdeithas leol yng Nghymru yn ymdopi pan ddaeth y carcharorion rhyfel."

"Ambell sylw yn ysgogi'r meddwl. Roedd y stori fwy neu lai yn wir, felly rhaid derbyn hynny; roedd hanner ffordd rhwng nofel a chofnod hanesyddol."

"Anodd iawn, yn enwedig oherwydd y defnydd o'r Eidal, ond yn gofnod diddorol o bobl o'r Eidal a oedd yn garcharorion rhyfel yng Nghymru."

"Ysgrifennu'n well tuag at y diwedd—gweld realiti pethau, nad oes neb yn ennill mewn rhyfel, hyd yn oed y rhai sy'n 'ennill'."

Dyma'r llyfrau nesaf y byddwn yn eu darllen:
10 Mai *Ysbryd Sabrina* gan Martin Davis, Y Lolfa, £8.99 –

14 Mehefin *Lloerganiadau*, gan Fflur Dafydd, Y Lolfa £9.99

13 Medi – 2 LYFR: *Y Castell Siwgr* gan Angharad Tomos, Gwasg Carreg Gwalch £8.50 a *Llechi* gan Manon Steffan Ros, Y Lolfa £6.99

Ar Zoom rydyn ni'n cyfarfod ar hyn o bryd.

Croeso i chi ymuno â ni, cysylltwch ag el-in.angharad.meek@gmail.com

Wilia Mai

yng ngofal Elin Meek
Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Anfonwch unrhyw beth a allai fod o ddi-ddordeb i'n darllenwyr erbyn Mai 24:
wilia@hotmail.co.uk

Croeso i unrhyw fath o ddeunydd; os oes gennych gerdd neu stori sy'n hel llwch yn y drôr! Rhifyn Mehefin yng ngofal Steve Morris

CYMRAG



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Yr Athro Prys Morgan—**a'i ddawn** ym myd celf— detholiad o gyfweiliad â chylchgrawn Y Stamp

Mae'r cyfweiliad llawn a rhagor o luniau i'w gweld ar y wefan <https://www.ystamp.cymru/post/cyfweiliad-llawn-celf-prys-morgan>. Diolch i Angharad Dafis am ei gwaith gwych yn trawsgrifio ac am ganiatâd Y Stamp i gynnwys y detholiad hwn.

www.ystamp.cymru/post/cyfweiliad-llawn-celf-prys-morgan. Diolch i Angharad Dafis am ei gwaith gwych yn trawsgrifio ac am ganiatâd Y Stamp i gynnwys y detholiad hwn.

Isie holi chi o'n i le wnath y diddordeb mewn celf, mewn arlunio, ddachre?

Ma'n rhaid bod e yn y gwa'd achos un o'r llunie, o'r photos cynta o'dd wedi'i dynnu ohono'i gan berthnase, fowr mwy na



babi yn yr ardd yn blentyn bach dwy flwydd oed yn Radyr, photo bychan, bychan Kodak ac mae'n amlwg bod darn o bapur gen i a pensl. Pan o'n i'n blentyn o'n i bob amser yn tynnu llun gyda 'nhafod fyl 'na, yn ôl beth ma pobol yn dweud 'tho'i. Mae'n amlwg bo fi'n hoff o dynnu llunie. Wi ddim yn gallu cofio amser nad o'n i ddim yn sgriblan, neu'n dwldan 'te, llunie o bob math.

O'n i bob amser yn gofyn i'n rhieni a fydde'n bosibl i mi fynd i ysgol gelf i ddysgu celfyddyd ac o'n nhw'n dweud, 'O na – do's dim digon o sicrwydd gyrfu gyda celfyddyd: y'n ni ddim yn meddwl bo chi'n ddigon da – dim ond amatyr fyddwch chi byth. O's dim bara menyng mewn celfyddyd.' O'n nhw wedi cael eu codi mewn byd ansicr iawn yn y dau-ddege a'r tridege lle o'dd diweithdra cant



y cant mewn rhai manne fel Rhymni yn Shir Fynwy lle o'dd Mam yn dysgu Cymra'g yn yr ysgol ac o'dd y syniad gyda nhw bod raid i chi ga'l ryw swydd broffesiynol, fel bod yn gyfreithwr neu rwbeth saff fel 'na, a neud celfyddyd fel hobi. Ac felly bu raid i fi dderbyn, o'n i'n ddigon meddal fel cymeriad, wi ddim yn gymeriad cryf iawn, un gwan ydw i yn y bôn yn rhoi miwn i berswâd pobol ac felly mi wnes i broffesiwn fel academiig wedyn 'ny. O'n i ddim yn ca'l gwaith academic yn anodd. I fi ar hyd fy oes ma celfyddyd wedi bod yn hobi.

Ond wi'n gallu cofio pan es i neud

gwasaneth milwrol, o'dd rhan fwy o'r ddwy flynedd orfodol yn Llundun. O'n i'n byw mewn gwesty yn South Kensington. O'n i'n gorffen yn gwersi Rwsieg yn Russell Square am bedwar o'r gloch y prynhawn. O'dd dim dysgu



ar ôl pedwar. Ac felly o'dd hyn yn rhoi dwy awr wostod bob dydd i chi i fynd i weld oriele celf. Ac o'dd hynny yn agoriad llygad i mi. O'dd ca'l byw yn Llundun, ca'l rhyddid, o'ch chi'm yn gorffod gneud dim. O'ch chi ddim yn gorffod byw mewn iwniform, mewn lifrai. Ac o'dd ych bwyd, popeth yn ca'l ei roi i chi am ddim. Ac o'n i'n rhydd felly i fynd i lot fawr o oriele celf. Ac rwy'n credu bo fi wedi bod ym mhob un ohonyn nhw yn ddieithriad mwy neu lai. Nid jyst y National Gallery ond yr oriele bach masnachol yn Llundun. . Ac fel o'dd hi'n digwdd o'dd nifer o'r bechgyn oedd yn y llu awyr â diddordeb mawr mewn celfyddyd ac yn paentio'u hunen. Ac o'n i'n meddwl 'Os gall bechgyn erill baentio alla i baentio'. A mae'n dderbyniol mae'n amlwg. Dyna o'dd y cyfnod lle y datblyges i'n llygad. O'dd yn llygad i heb 'i addysgu yn blentyn

ysgol. O'dd mynd i Llundun ac o'dd e fel 'sech chi'n neud cwrs anrhydedd mewn history of art and aesthetics am ddwy awr cyn mynd nôl i ga'l ych cino nos am wch drw fynd i oriele a gweld yr holl

arddangosfeydd 'ma. O'dd cymint o am-rywieth. O'dd hyn yn addysg ryfeddol i mi. Dyna ddatblygodd y syniad o ddachre deall beth o'dd yn gneud celfyddyd dda: y gwan- ieth rhwng celfyddyd amatyr sâl a chelfyddyd dda gan ryw bobol broffesiynol fel Pic-asso. O'ch chi'n dachre dod yn gyfarwdd â bobl fel Rembrandt yn y National Gallery neu Picasso.

Felly yn y cyfnod yna y dethoch chi i nabad ych hoff artistied chi a dachre datblygu ych arddull ych hunan?

O'n i'n fwy eang yn y cyfnod yna: y'ch chi'n datblygu yn berson rownd y deunaw o'd, peder ar bymtheg. O'n i'n llawer mwy agored i hoffi celfyddyd fod-

ryn iawn na fydden i ddim yn ei hoffi fe lot heddi falle, pethe han-iaethol er enghraifft. Wi'n cofio mynd i ar-ddangosfa gan Merlyn Evans, bachgen o Ga'r-dydd o'dd yn byw yn Llundan. Dyw e eriod wedi ca'l i ystyried yn un o fawrion celfyddyd Cymru ond o'dd e yn *avant garde* iawn yn ei ddydd yn gneud llunie cwblw haniaethol a jyst paent du ar ganfas gwyn. O'n nhw ddim yn bethe hawdd iawn i ga'l yn ych tŷ. O'n nhw'n stark iawn. Cigynôth fel y'n ni'n gneud yn Cwm Tawe, nid cignoeth. A wi'n cofio hoff- i'r llunie 'ma ond wi ddim yn credu y bydden i'n hoffi nhw heddi.

O's 'na gyfnod wedi bod pan y'ch chi'n arlunio lot?

O's wrth gwrs: wedi i fi ymddeol. Pan o'n i'n gwitho, o'dd dyn yn ca'l ei gadw yn itha prysur drw'r amser yn ymchwilio a mynd i lyfrgellodd a paratoi darlithie ac yn y bla'n ac o'dd dim o'r ynni gen i. Ond unwaith o'n i wedi ymddeol yn chwedeg pump o'dd y meddylfryd gyda fi i fynd i neud rhwbeth. O'ch chi ddim yn teimlo bod raid i bob muned fynd i'r coleg, i'r brifysgol. A wedodd George Little wrtho i y bydde fe'n gyfleus i rywun oedd yn 'Sunday painter' chwedl ynte fel finne ddefnyddio 'clean paints', paent acrylig. 'I'll give you lessons,' medde fe. O'n i'n ffrindie mowr gyda George a

Carolyn achos o'n nhw'n arlunwyr proff-esiynol a hefyd o'dd George ym 1976 wedi 'mherwadio i fynd lawr i Caswell i nofio.

Felly o'n i'n cwrdd â George bob dydd am hanner awr wedi wyth y bore cyn bo fi'n mynd miwn i'r coleg nôl yn 1976 pan ddechreues i'r nonsens 'ma o fynd miwn i'r môr bob dydd. Ac o'n i wostod yn siarad am gelfyddyd gyda George. Hefyd o'dd bachgen o'dd yn dysgu etching ac engraving o'r enw Arthur Charlton, bachgen o Ogledd Lloegr ac o'dd Arthur yn dysgu bob math o bethe fel lithography ac yn y bla'n yn y coleg celfyddyd yn Abertawe.

Pan o'ch chi'n mynd mewn i'r caban i fynd mewn i'r dŵr, o'dd y ddou arlunydd 'ma yn barod iawn i siarad am gelfyddyd a technege lithographi ac o'n i'n dangos y sgetshys ac o'n nhw'n ffindo beie arnyn nhw. A gneud bod y persbectif yn anghywir a sut o'dd cywiro perspectif. Ac wedi i mi ymddeol, ac o'dd Arthur Charlton wedi symud o Abertawe o'dd e'n hen ŵr erbyn hynny i fyw gyda'i fab, roedd George yn gneud wrtho i y bydde fe'n rhoi gwersi i fi – a mwy neu lai o'n i'n

gorfod aiddysgu – gwersi celfyddyd fel pe tawn i'n fyfyrwr mewn coleg celf.

Be chi'n golygu wrth aiddysgu?

Dysgu o'r dachre ffor o'dd doddi lliwie ar ganfas achos bo chi'n defnyddio ffor newydd o baent, acrylig. Er bod e'n edrych yn hawdd, dyfriliw yw'r peth mwya anodd. Allwch chi ddim cywiro camsyned mewn dyfriliw. Mae gyment yn haws i gywiro acrylig i amatur na dyfriliw. Os nad y'ch chi'n defnyddio gouache – ma modd cywiro gouache. Ond dyw hynny ddim yn ca'l ei styried yn ddyfriliw iawn ymhlith y Sison beth bynnag. Yn Ffrainc – ody.

Felly o'n i'n gorffod dysgu. O'dd George

yn dangos i fi bod e gyment yn haws i dynnu llun mewn acrylig achos bo chi'n gallu cywiro'ch camsynied.

Felly o'ch chi'n ca'l gwersi wythnos-ol?

O'n i'n gofyn iddyn nhw ddod i ga'l coffi a thishen. 'Are we coming for coffee and cake or are we coming for a crit? What are we doing?' 'Oh crit,' medden i 'I have finished a painting.'

Ac o'n i'n doddi nhw lan ar y pentan neu'r ford ac o'n nhw'n sefyll nôl a gneud 'Hmm. There's something wrong there. The paint is too thick here, too thin there.' Neu 'the background is too like the foreground'. Pethe fel 'na.

Chi'n sôn am nofio yn y môr bob

dydd. Ydy hwnna yn ych ysbrydoli chi yn ych gwaith celf? Oes 'na berthynas rhwng y ddau beth?

Fel rhan fwya o bobol amateur, wi'n ca'l tirlun yn llawer haws na dim byd arall i neud. Ma pob un sydd yn amateur – heb fawr o eithriade wi'n credu – yn gwbod bod tirlun yn lot haws i neud na llunie o bobol. A ma môr yn fwy anodd i neud na'r tir achos mae'n symud drw'r amser fel ma bode dynol yn symud. Ac felly wi'n ca'l e'n anodd iawn i neud pobol. Ac wrth gwrs ma'r arlunydd proffesiynol yn gallu galw model. Neu'ch gŵr neu'ch gwraig i ishte o'ch bla'n chi. Ond do's dim model gen i a wi'n goffo dychmygu. Gorffo treio cofio beth o'dd siap pobol a ma hwnna'n anodd iawn i neud. Ond wi ddim yn ca'l tirlun yn anodd i neud o gwblw.

A falle bod hwnna – bod cof mor wych gyda chi at fanylion hanesyddol...

Wi ddim yn neud llun yn llwyr o gof. Wi wostod yn neud rhyw fath o fraslun.



Cwestiwn bach yn athronyddol falle: pam y'ch chi'n meddwl ych bo chi'n arlunio?

>> parhad ar dudalen 4

O FEIRION I DREFORYS – HUW DYLAN

Eithriad yw canfod arddull neu genre newydd mewn cerddoriaeth gyfoes, yn enwedig yn y Gymraeg. Felly croesewir albwym newydd arwyddocaol o blethu arddulliau roc, rap, llafarganu, ac alawon gwerin i gyfeiliant cywyddau, englynion ac ambell i gân.

Nid gor-ddweud fyddai datgan bod yma eiriau cignoeth ar adegau. Profwn hil-laddiad i'w fwynhau, "Diawlineb yn adloniant", a llofruddiaeth tad gan ei ferch, a hynny yn y pedwar trac cyntaf yn unig!

Dyma gasgliad newydd Huw Dylan, O Feirion i Dreforys, a rhwng y llafarganu barddoniaeth a chaneuon dirdynnol ceir al-



awon traddodiadol ar gitarau trydan band roc. Ac yntau'n hanu yn wreiddiol o Ddolgellau aiff y casgliad â ni ar daith i'w gartref presennol yn Nhreforys, Abertawe, gan fynd ar ambell antur i Lydaw, Sempringham a thiroedd brodorol yr Amerig ar y ffordd. Ar glawr mewnol y CD gwelir:

Ar hyd heol hudolus - am ennyd
dymunaf eich tywys;
o fro i fro dewch ar frys
o Feirion i Dreforys.

Yn ogystal â chyfansoddiadau gwreiddiol, clywn wedd newydd ar waith dau fardd o fri, a chaiff gwmni cerddorion o safon i gyd-ganu. Dyma albwym wahanol ac unigryw ar gyffordd cerddoriaeth werin draddodiadol Cymru, barddoniaeth gynganeddol, a rap a roc Eingl-Americanaidd. I'w ffeilio o dan Tradd-Rap...

O Feirion i Dreforys gan Huw Dylan ar gael o'r 1af Mai 2021 i'w ffrydio neu ar CD drwy Bandcamp a siopau Cymraeg. huwdylan.bandcamp.com Dyma ei wefan: www.gurfal.com

Angen Tiwtoriaid!

Annwyl olygydd,

Tybed oes rhai o'ch darllenwyr awydd sialens newydd neu'n chwilio am ychydig o waith ac eisiau gweithio fel tiwtor Cymraeg?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Gen-

edlaethol eisiau casglu cronfa o enwau pobl fyddai â diddordeb gweithio fel tiwtor, gyda'r oriau gwaith yn gallu amrywio o ddwy awr i dros 20 awr yr wythnos. Mae wedi bod yn flwyddyn hynod brysur o wersi ar-lein i'r Ganolfan, ac

mae 'na alw parhaus am diwtoriaid i ddysgu'r miloedd o oedolion sy'n cofrestru ar gyrsiau bob blwyddyn. 'Dyn ni'n chwilio am bobl ym mhob rhan o Gymru i ymuno gyda'r tim o diwtoriaid gwych sydd eisoes yn gweithio gyda ni. Yn ddelfrydol, 'dyn ni'n chwilio am brofiad dysgu blaenorol, ond y nodweddion hollbwysig ydy brwdfrydedd ac ymroddiad at y Gymraeg. Bydd y Ganolfan yn casglu enwau pobl sydd â diddordeb, i'w rhannu gyda'i darparwyr cyrsiau, fel y gallan nhw gysylltu'n uniongyrchol i drafod cyfleoedd gwaith posibl. Mae tiwtoriaid yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y darparwyr.

Mae'r dysgwyr yn dysgu ar bum lefel wahanol – o gyrsiau Mynediad ar gyfer dechreuwyr, i gyrsiau Uwch a Hyfedredd ar gyfer y rheiny sy'n siaradwyr profiadol. Mae'r gwersi i gyd yn cael eu cynnal ar-lein ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd canran o'r dosbarthiadau yn dychwelyd i ddysgu wyneb-yn-wyneb mewn lleoliadau ar draws Cymru pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

I gofrestru eich diddordeb, ewch i: <https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/recriwtio-tiwtoriaid/>

Helen Prosser

Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

PRYS MORGAN—PARHAD
Achos bo fi'n teimlo bo raid i fi. Pan dw i'n gweld rhwbeth pleserus. O'dd Mam yn dweud bod rheidrwydd ar ddyd yn emosynol rwy'n credu. Wi'n para i ga'l yr un pleser nawr o baentio, o arlunio ag o'n i'n blentyn bach. Wi ddim yn paentio â nhafod nawr...

Wi'n hoff iawn o gyferbynnu wynebe. Cartwnish mewn ffordd. Ambell waith wi'n troi'r llunie 'na yn olew, yn acrylig ond fel arfer ma nhw'n aros yn syniade yn ych pen chi o gyferbynnu dau wynebe.

Pam y'ch chi'n hoffi cyferbynnu dau wynebe?

Mae'n creu rhyw fath o ddrama. Mae'n creu rhyw fath o drydan – trydan yn mynd rhwng dou ben gwahanol.

O'ch dychymyg chi ma'r cymeriade 'ma?

Ie yn hollol. Na dw i ddim yn mentro eistedd a tynnu llun o bobol. Wrth feddwl am y llunie. Ma pensaerni-

eth yn thema drwyddyn nhw i gyd. Wi wostod yn hawdd iawn i neud llunie o adeilade.

Beth arall o'n i wedi gofyn i'n rhieni a gelen ni fynd yn bensaer. A wedson nhw 'Wel ma hwnna yn broffesiwn ardderchog ond dy'ch chi ddim gwerth yn neud Maths.' Sim unrhyw bensaer heddi yn neud maths. Erbyn heddi ma quantity surveyor bob amser yn swyddfa penseiri sy'n neud Mathemateg yr adeilad. Y cyfan ma'r pensaer yn neud yw gneud y cynllun a'r darlun.

Wi wedi cadw llyfre yn mynd nol i 1955 braslunie o lunie dyfiriw. Mae'n bwysig i chi gadw braslunie. Ma mwy nag ugen ohonyn nhw. 1953 a 1950.

O'n i wedi neud y portread 'na o Rhodri yn gwisgo blazer newydd. 1950. O'n i'n agos i dair ar ddeg pan 'nes i hwnna.

A fydddech chi'n hoffi gweld rhacor o lunie?

Chwilio am gantorion Cymru sy'n breuddwydio am ganu gyda'u harwyr

Mae'r rhaglen sy'n codi'r galon, Canu Gyda Fy Arwr, yn ôl am ail gyfres ac yn rhoi cyfle arall i unigolion neu, am y tro cyntaf eleni, grwpiau, gymryd rhan mewn profiad hollol unigryw o ganu gyda'i arwr cerddorol.

Roedd y gyfres gyntaf, a ddarlledwyd ar S4C ym mis Ionawr 2021, yn cynnwys Elin Fflur, Shân Cothi a Dafydd Iwan yn canu gyda phobl o wahanol



gefnidiroedd gyda rhai yn enwebu eu hunain ac eraill yn cael eu henwebu gan ffrindiau neu deulu, fel sypreis llwyr!

Mae'r tenor adnabyddus Rhys Meirion, sy'n cyflwyno'r rhaglen, nawr yn chwilio am freuddwydwr newydd sydd wrth eu boddau â cherddoriaeth i gymryd rhan mewn deuwadwau disglair ar gyfer y gyf-

res nesaf. Ac eleni, nid dim ond unigolion sy'n gallu cael y cyfle unigryw yma. Mae modd i deulu, grŵp o ffrindiau, aelodau o'r un côr neu gymdeithas gymryd rhan!

Felly os ydych chi'n breuddwydio am ganu gydag

arwr neu arwres arbennig, neu eisiau enwebu ffrind, aelod o'r teulu neu grŵp sy'n haeddu'r profiad bythgofiadwy yma, mae angen cysylltu â chwmni cynhyrchu teledu Cwmni Da yng Nghaernarfon, erbyn dydd Llun, Mehefin 7, 2021.

I wneud cais, llenwch y ffurflen gais ac anfonwch glip fideo byr i <https://www.cwmnida.cymru/canu/>. Ac am ragor o wybodaeth, cysylltwch â canu@cwmnida.tv neu 07483904452.

Cyrraedd Miliwn o siaradwyr Cymraeg CYN 2050?

Posib neu beidio?

Posib – wrth gwrs!

Oedolion sy'n dysgu yw'r ateb ond y broblem fwyaf yw bod llawer yn gadael y cyrsiau am wahanol resymau ac mae llawer o'r rhai sydd yn cyrraedd diwedd yr ail flwyddyn yn methu darganfod y drws i mewn i'r gymdeithas. Mae gormod o ddysgwyr yn mynd ar goll i'r iaith.

Beth am annog dysgwyr yr ail flwyddyn i ddechrau cael cyfarfodydd i ymarfer eu hiaith a hynny mewn lle cyhoeddus?

Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cymry Cymraeg ddod i'w hadnabod nhw ac i roi gwahoddiad iddyn nhw i'r gymuned.

Hefyd, unwaith maen nhw wedi gorffen yr ail flwyddyn bydd y grŵp yna i roi cymorth i'r ail flwyddyn sydd wedi eu dilyn, ac yn y blaen, ac yn y blaen.

Yn sydyn mae pont wedi ei greu i'r gymuned, bydd mwy o'r dysgwyr yn dal ati tan ddiwedd y cwrs achos maen nhw'n cymysgu â dysgwyr mwy profiadol.

Bydd y bont sydd wedi ei greu yn bwydo gwaed newydd i'r gymuned leol sydd wir ei angen.

Er mwyn cael y gorau o'r cynllun syml yma mae rhaid i'r grŵp gyfarfod mewn lle cyhoeddus, yn yr un lle, ar yr un amser ac yn rheolaidd.

Yr unig beth sydd angen wneud yw:

Cael y tiwtoriaid i annog y dysgwyr i ddechrau'r grŵp.

Cael y Fenter Iaith i roi cymorth iddyn nhw wrth fod yna i gadw sgyrsiau i fynd yn yr wythnosau cynnar.

Gwneud yn siŵr bod y papur bro yn tynnu sylw at y grŵp.

Mae dysgwyr yn llawn brwdfrydedd a bydden nhw yn ased mawr i'r gymuned a'r iaith.

Cynllun fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr heb gost i'r llywodraeth!

Ers blwyddyn bellach dw i wedi bod yn cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o'r enw *Y Wennol*, y cyfranwyr i gyd yn ddysgwyr. Ces i'r syniad am y cynllun yma ar ôl i un o'r cyfranwyr ysgrifennu am sut wnaethon nhw ffurfio grŵp i gyfarfod yn y Three Cliffs Cafe yn Southgate, Gŵyr. Mae Southgate yn bentref Saesneg ei olwg ond wrth ffurfio'r grŵp maen nhw wedi dod i adnabod llawer o siaradwyr Cymraeg yn y pentref. Mae aelodau'r grŵp wedi cael eu cyflwyno i Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac erbyn hyn yn aelodau selog.

Mae'r cynllun dw i'n awgrymu uchod wedi ei seilio ar brofiad aelodau o'r grŵp. Roedden nhw'n ysu am gyfle i siarad yr iaith roedden nhw wedi gweithio mor galed i ddysgu. Nid ydyn nhw'n cyfarfod ar hyn o bryd wrth gwrs ond mi fydden nhw'n ail ddechrau cyn cyntedd â phosib.

Pan nes i feddwl am ddechrau cyhoeddi'r Wennol roedd angen cyfranwyr

a, gan roedd gen i gysylltiad â'r grŵp yn barod, atyn nhw nes i droi. Erbyn hyn maen nhw wedi cael llawer cyfle i ysgrifennu ac wedi mwynhau'r profiad. Mae eu herthyglau wedi cael eu cyhoeddi yn ein papur bro a hefyd yng Nghylchlythyr Cymdeithas Edward Llwyd. Erbyn hyn mae 13 rifyn o'r Wennol wedi ei gyhoeddi, heb y dysgwyr byswn i byth wedi medru gwneud hynny. Faint o ddysgwyr medrus sydd yn mynd ar goll pob blwyddyn?

Mae creu'r grŵp wedi rhoi agoriad i'r gymuned Gymraeg o'u cwrpas iddyn nhw. Maen nhw wedi cael newid byd a'r gymuned Gymraeg yr un peth. Os dyna yw'r effaith yn Southgate meddylwch am yr effaith trwy Gymru gyfan petasai'r un peth yn digwydd ym mhob ardal. Mewn ychydig o fisoedd bydd y dosbarthiadau nos yn dod i ben. Rŵan yw'r amser i ddechrau sicrhau nad ydyn ni'n colli'r dysgwyr sydd yn yr ail flwyddyn ar hyn o bryd. Felly i chi'r tiwtoriaid sydd yn darllen hyn ewch ati i annog eich dysgwyr i greu grŵp cyn i'r flwyddyn ddod i ben. Peidiwch â gadael pethau'n rhy hwyr!

Hyd y gwn i does neb wedi ffurfio cynllun i'r Cymry Cymraeg ddilyn i sicrhau dyfodol i'r iaith. Dw i'n meddwl bydd y cynllun yma yn gwneud byd o wahaniaeth i lwyddiant dysgwyr i feistrolïr iaith. Ond nid siarad am y broblem sydd rhaid – mae angen gweithredu!

Rydym newydd lenwi ffurflenni'r cyfrifiad a bydd yn ddiddorol gweld faint o siaradwyr Cymraeg sydd i gymharu â deg mlynedd yn ôl. Beth bynnag fydd y ffigurau'n dangos mi fydden nhw wedi bod yn llawer gwell petasem ni wedi gwneud rhywbeth fel hyn deng mlynedd yn ôl!

Rob Evans

Gardd Morgannwg

gan Huw Dylan Owen

Diolch i Huw Dylan am rannu ysgrif a ysgrifennodd i'r Ffôn Newydd gyda Willa.



Yng nghanol Y Gofid Mawr bu Tŷ Tawe, Abertawe, ar agor am gyfnod yn yr haf ac yno, yn y 'Siop Siarad' ar fore Sadwrn ym mis Awst y cefais sgwrs gyda Heini Gruffudd dros goffi. Trin a thrafod yr Elyrch a'r tymor newydd sbardunodd drafodaeth bellach ar Stadiwm Liberty a'r tir o'i amgylch. Yno heddiw fe geir llond gwlad o ganolfannau masnach cyfalafol yn gwerthu pob math o geriach technegol, offer tŷ a theclynnau garddio, dilladau a bwydydd diddiwedd. Enw'r ardal yw'r Morfa, er fod rhai yn mynnu ei alw'n 'Morfa Park' am ryw reswm gan gymhlethu ac ymestyn enw twt.

Eglurodd Heini wrthyf sut y disgrifiwyd yr ardal fel man mwyaf ffrwythlon Cymru ar un adeg ac i'r beirdd ei galw'n "Gardd Morgannwg". Mae'n anodd credu hynny o gofio'r mai yn yr union fan yr oedd y gweithfeydd copr a thun pwysicaf yn y byd, y llygredd a'r diwydiant mwyaf welwyd ar y pryd yn y 'Copperopolis', fel yr adnabyddid Abertawe. Yn wir, geilw cyngor Abertawe yr ail ddatblygu presennol ar y ddinas yn "Bae Copr". Disgrifiodd Heini gywyddau'r beirdd yn canmol uchelwyr yr ardal, gan egluro fod cartref uchelwyr arbennig, Llys Newydd, wedi ei ddisodli erbyn hyn gan archfarchnad Morrisons. Rhaid oedd ymchwilio ymhellach.

Nid nepell fyny'r cwm yn Ynys Tawe (ble mae cyffordd 45 yr M4 erbyn hyn), roedd annedd Hopcyn ap Tomas y darllenwn amdano yn Llyfr Coch Hergest. Ef oedd yn gyfrifol am sicrhau cofnodi hanesion y

Mabinogi ac mae hanes enwog amdano yn (cam?)arwain Owain Glyndŵr heibio i Abertawe drwy (gam?)ddarogan tynged y tywysog. Yn ystod yr un cyfnod gwelwn ar hen fapiau fod lle ym mhlwyf Llansamlet yn dwyn yr enw Llys Newydd. Tybed oedd

yr enw "Newydd" yn awgrymu iddo gymryd lle llys blaenorol ar yr un safle?

Dywed rhai ffynonellau mai teulu yr Einion ap Collwyn (chwedlonol) fu'n berchen ar y plasty o'r ddeuddegfed ganrif.

Llys Newydd ar fap o 1932 a ddengys ardal Abertawe yn ystod y 14eg ganrif.



Oddeutu deugain mlynedd wedi gwrthryfel Glyndŵr, roedd Lewys Glyn Cothi yn canu clodydd y teulu "O Vro Wyr" (Bro Gŵyr) a dysgwn lawer am y teulu bonheddig a drigai yn y Llys Newydd. Roedd Sion ab Davydd, meddai yn ei gywydd cyntaf, o hil Lleision, yn ŵr i Mawd Ferch Vorgan, o hil Gwilymiaid, ac roedd y ddau'n byw mewn llys nefolaidd:

O win y mae mwy no mwy

Yn y tai ar lan Tawy.

Ac yna cyfeiria at Gilfai, sef y bryn, neu faenor o bosib, a saif uwchlaw ardal San Tomos yn Abertawe, sef trigfan y bardd Casnodyn Cilfai ganrif ynghynt (bardd fu'n

arddel peth dirmyg at feirdd cyfoes ei ddydd gan ddisgrifio eu "sothachieith beirdd ceith Caeaw" a chanmol "main riain firain gain Gymraeg"). Cyn cymharu bwydydd a gwin Llys Newydd (a ddaeth o Rôn – ardal y gwin Beaujolais) â'r gorau o "Ysbaen a Lisbwrn". Daw'r cywydd cyntaf hwn i ben drwy ddweud na fyddai'r bardd fyth eto'n gweld yr angen i brydyddu am unrhyw un arall:

Ni wnav â'm pen, a'm tavawd;

Sôn mwy ond am Sion a Mawd.

Ychydig yn ddiweddarach fe gân bardd arall, Ieuan Deulwyn, gywydd marwnad i Sion ap Davydd o'r Llys Newydd, gyda'r linell gyntaf ysgytwol:

Nos dy yw ynys dawy
(nos du yw Ynys Tawe)

Yn yr un cywydd marwnad dywed Ieuan Deulwyn:

Os bydd ef ny gynefin

(os mai'r nef fyddai ei gynefin)

Ni bydd Duw heb ddiod win.

Ac ychwanegodd rhywun ar ymyl y ddalen ger y cwpled hwn, "Paid a thybyaw felly!"

Ond roedd y bardd yn sicr ei farn gan gloi:

Fel y gwnei a'r gwesteion

Gwnaed y saint ag enaid Sion.

Canu clodydd Davydd ab Sion ("O Vro Wyr") a geir mewn ail gywydd gan Lewys Glyn Cothi a deallwn mai mab Sion ab Davydd ydyw. Y tro hwn, Davydd sy'n haeddu'r moliant a chawn ar ddeall mai:

Dy fyniant yn voliant vydd

I dir Gŵyr yn dragywydd.

Mewn awdl i glodfori yr un Davydd ab Sion cawn wybod fod pobl ar draws Lloegr a Chymru gyfan (Meirion, Môn, ac ati) yn gwybod am ei fawredd! Ceir awdl arall iddo "pan oedd wedi myned i Ruvain" a chawn wybod sut y bu'r wlad gyfan yn hiraethu amdano, a'i fam, Mawd, ar bigau'r drain eisiau ei weld adref.

Wedi iddo ddychwelyd o Rufain, cawn wybod mewn awdl arall am ei briodas i Gwenllian, ferch Siencyn ab Owain ac mae Lewys yn datgan mai:

Tri pheth (trwy y fydd) arwawg, ni ddervydd:

Crwys yr eglwysydd, Teivi, clod Davydd.

sef, y tri pheth na wnaiff fyth ddod i ben, sef croes yr eglwys, yr afon Teifi, a chlod i Dafydd!

Ceir cywydd hefyd i frawd Dafydd, sef Hopcyn ab Sion, oedd yn ôl y bardd yn ganwr penillion, yn gwirioni ar farddoniaeth, ac yn delynor heb ei ail, heb sôn am fod yn arglwydd ar dalp o diroedd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, gan gynnwys Tregaron, Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan:

I Hopcyn, er hyn, y rhawg
Ydd a gwledydd goludawg;
Gwlad Geredig a Chadell;
Gŵyr, a Sir Gaer y sy well.
Iddaw y mae, arglwydd men,
Daiar Llanbedr, oll unben.
Saint Clêr, dan ei vaner vo,
A swyddau Cemais iddo;
Bro Went, Morgannwg o'i bron,
Bro Wyr, ac Aber Aeron.

Felly, gwyddom cryn dipyn am y teulu arbennig hwn ar lan yr afon Tawe. Ond gydag amser pylodd y cof am hanes y teulu ac ni wyddom lawer mwy amdanynt. Ond erys yr enw mewn hanes ac ar fapiau, ac ar hyd y canrifoedd fe welir Llys Newydd yn hawlio ei le yng nghanol Gardd Morgannwg. Gallwn weld yr enw'n cael ei lurgunio ar hyd y blynyddoedd gyda chyfeiriadau at Llys Newydd Marshes a Morfa'r Brwyn. A tybed a oes rhyw gysylltiad i Mawd, gwraig y tŷ, a'r enw ar fapiau'r degwm - Tir Mawdy?

Dengys arolwg Powell yn 1764 fod bonedd yn berchen ar y tiroedd o hyd. Roedd teulu'r Vernon (Honourable G.V.Vernon) yn dirfeddianwyr a Jonathan Williams yn byw yn y Llys Newydd ac ym meddiant "Morfa'r Kyrse". Gerllaw roedd adeilad Gwern Llestr (rhan o dir Llys Newydd) ym meddiant Hopkin Davies. Yn yr ardal hon fel rheol byddai rhent blynyddol yn cael eu mesur mewn ceiniogau a sylltau, ond roedd Llys Newydd ar ei ben ei hun yn yr arolwg gyda rhent blynyddol o £1. Fe ymddengys yr ystyr y tŷ yn arbennig hyd yn oed y pryd hynny. Wedi hynny fe fu teulu'r Popkins yn byw yno, y teulu y cyfeiriwyd atynt gan Williams Williams, Pantycelyn, am eu cyfoeth.

Yn 1873 mewn ymgais i egluro'r enw

Llys Newydd, ysgrifennodd Philip Morgan o Dreforys, dan yr enw Dyfnwal Moelmud, ym mhapur newydd y *Cambrian*. Disgrifiodd yr adeilad cyfagos a enwyd yn Gwaun Llueste (Gwern Llestr uchod), gan ddweud mai Llys a Tŷ oedd tarddiad Llueste yn ei dyb ef. Gan nodi fod yr adeilad yn dal ar ei draed a:

"There are portions of huge iron hinges now projecting out of the wall, on which, undoubtedly, a massive door opened and closed on this cell or prison."

Mae'n debyg fod posibl mai Waen-

llydsy oedd yr enw gwreiddiol.

Aiff Morgan yn ei flaen i ddatgan nad cyd-ddigwyddiad oedd y lleoliad gan



mai gerllaw, ger tafarn y Bonymaen, ble saif maen hir trawiadol ar y groesffordd, roedd dwy ffordd Rufeinig yn cwrrd, Sarn Helen a Sarn Morris. Rhoddodd farn hefyd fod y Gwyndy gerllaw (a barhâi yn agored fel tafarn pan yr ysgrifennai) yn cyfeirio at Gwin a Tŷ a'r gwin-oedd blasus a geid yno yn oes y Llys Newydd.

Yn wir, dywed rhai haneswyr fod Gardd Morgannwg yn fwy na chwedl a bod hanesion y gallai amaethwyr yr ardal gynaeafu yd ym mis Awst, o flaen gweddill Cymru a gwerthu'r cynnyrch yn ffair Castell Nedd ar y 12fed o Fedi. Ond ni pharodd yr afallon, hon a thua dechrau'r ddeunawfed ganrif, agorwyd gweithfeydd copr a phlwm yno.

Erbyn 1778 roedd gymaint o ddatblygiadau yno nes i'r trefeddiannwyr ofyn am ganiatâd Tŷ'r Cyffredin i gael codi pont er mwyn hwyluso trafod cynnyrch y gweithfeydd. Fe geir adroddiad manwl ar y sefyllfa yn Hansard. Roedd y bont

i'w gosod "at a Place called Llys Newydd Marsh".

Hansard 1778

After a long and tedious examination, that the Town of Swansea is large and populous, and that there are several Mines and Manufactures in the Neighbourhood of it; that the only Communication with the Country adjacent is by Means of a Ferry over the River Tawe, which, at all Times, is attended with Delay, Difficulty, and Danger, and at high Tides is impassable; that if a Bridge was erected across the said River, at a Place called Llys Newydd Marsh, in the Parish of Llanfawr, adjoining to the Parish of Swansea, with proper Avenues to it, the said Town and Neighbourhood of Swansea would be greatly benefited thereby, the Trade of the Country would be accommodated, and a safe Communication would be opened with the County of Glamorgan, and the Metropolis; that the Place he mentioned as proper to erect the Bridge at, is above that Part of the River which is navigable only with Barges and small Craft, and is a Part of the Country very fully inhabited; that the Situation of Swansea, which is nearly surrounded by the Sea, and Two Rivers, renders a Bridge in or near it particularly necessary. Being further examined, he produced to your Committee a Plan for a Bridge proposed to be built, and of the Avenues to be made thereto, and said That

Erbyn 1822 cafwyd hysbyseb ym mhapur newydd *The Cambrian* yn cynnig rhannau o Llys Newydd Farm ar rent drwy brydles o drigain mlynedd, wedi ei anelu yn benodol "To the Copper Companies." Gwelwn hysbysebion eraill o'r un cyfnod yn cynnig tiroedd yr ardal ar werth "except mineral rights." Ond nid oedd pawb yn yr ardal yn fodlon eu byd.

Yn 1833 aeth un-amaethwr-ar-ddeg o'r ardal yn Llansamlet â'r *Vivian Copper Works* i'r llys gan fod Llys Newydd yn "one of the first spots which felt the withering effect of the smoke" a bod y ffermwyr "one after the other strove to cultivate it for a living; but the odds were too heavy on the side of copper and lead." Ni fu'r simneiau adeiladwyd yn uchel i godi'r mwg i'r awyr a'i gadw o'r tir o gymorth, ond yn hytrach, gwasgarai'r llygredd dros ardal ehangach. Roedd yr achos llys yn un rhyfeddol, gyda'r Cymry yn amaethwyr tlawd yn ceisio dal eu tir yn erbyn Saeson o ddiwydianwyr grymus a chyfoethog.

Cyflogodd teulu'r Vivian neb llai na'r cyn Dwrnai Cyffredinol, Sir James Scarlett, i gynrychioli achos y gwaith. Cyfreithiwr yr amaethwyr lleol oedd John Evans, o Ferthyr Tydfil, a roddodd ei ddyfarniad ef ar y sefyllfa cyn i'r dyfarniad swyddogol ddod i'r fei, gan ddisgrifio un o'r amaethwyr fel "a person in a humble situation of life, and lives in the parish of Llansamlet." Tra y disgrifia'r trefeddiannwr yn: "The defendants are persons of great opulence and by their wealth were enabled to get the assistance of the great Leader of the English Bar."

Mae'n werth nodi fod dechrau'r achos gan

John Evans o Ferthyr wedi digwydd yn 1832. Wrth gwrs, roedd hynny union flwyddyn ar ôl Gwrthryfel Merthyr yn 1831 a Dic Penderyn a'r faner goch yn Hirwaun.

Dadl y teulu Vivian oedd fod budd economaidd enfawr gan y gwaith i dref a phobl Abertawe. Gwudent fod methiant cynaeafau a marwolaethau anifeiliaid ddim oll i'w wneud â'r mwg copr. Eglurodd y cyn Dwrnai Cyffredinol fod "Welsh farming methods were backward" a bod y mwg yn "shield against cholera". Ategoddd fod plant yr ardal yn "renowned for their cheerful dispositions and healthful and florid countenances."

Roedd dadleuon John Evans o Ferthyr yn rhai cryf. Dywedodd wrth y rheithgor:

Here is a pestilential work in the neighbourhood of Swansea, spreading poverty around, and the only remedy is to look for redress at your hands.....All the cattle, who eat the grass on which this sulphurous acid falls, immediately begin to suffer in their gums and teeth, and even their bones are affected, their

glands swell, become feeble, and they fall to the ground and die.....corn is blighted in these farms when it blossoms, and never comes better, it never fills afterwards.....the crops of corn were worth nothing."


Cytunodd y rheithgor nad oedd unrhyw fai ar deulu'r Vivian ac roedd cryn ryddhad mae'n debyg fod budd i'r gymuned gyfan wedi ei farnu'n bwysicach na loes ambell amaethwr. Dywedodd y papurau newydd ar y pryd fod gan yr achos "vast importance to the welfare of the Town and Trade of Swansea, as well as to the Copper Manufacture of the British Empire at large."

Dengys y mapiau degwm o'r cyfnod mai'r tîrffeddiannwr oedd Chweched Iarll Jersi (*The Earl of Jersey*), sef George Augustus Frederick Child Villiers a fu'n aelod seneddol ar Rochester, Minehead, Honiton, Weymouth, Melcombe, Regis a Crences-

ter. Gwasanaethodd fel "Lord-in-waiting" i Dduges Caergrawnt yn 1838 ar achlysur coroni'r Frenhines Victoria. Dengys y mapiau hefyd, fodd bynnag, fod yr enwau ar y lle yn dal eu tir, gyda Llys Newydd, Llys Newydd Isaf, Llys Newydd Bach a'r Gwyndy yn dal yn amlwg.

Gwelwn hefyd fod y tir nesaf ato yn eiddo i 'His Grace the Duke of Beaufort'. Bu'r tir yn nwylo'r un criw am ganrifoedd a gwyddom am helyntion diweddar (2009) y Dug Beaufort cyfredol a dderbyniodd £281,000 o arian trethdalwyr Abertawe am roddi'r hawl i'r Cyngor adeiladu pont droed newydd o Stadiwm y Liberty i'r ganolfan siopa yn y Morfa. Eglurodd swyddog o Gyngor Abertawe ar y pryd, "Mae Dug Beaufort yn berchen ar ran o wely'r Afon Tawe a, thrwy hynny, mae ganddo hawl i swm pryd bynnag yr adeiladir pont drosti."

Llys Newydd ar Fap 1938



Mae'n debyg mai'r amaethwr olaf i fyw yn Llys Newydd oedd Isaac y Cybydd. Roedd cred yn lleol fod ei ysbryd yn aflonyddu ar yr ardal gan iddo guddio ei arian yn y tî a gwrthododd pobl fyw yno wedi hynny. Bu'r hen lys yn wag am ddegawd a mwy.

Yn Rhagfyr 1858 cytunodd y tîrffeddiannwr, Dillwyn, yn Abertawe i gydweithio drwy brydlesi gyda Iarll Jersi i ganiatáu iddo osod gweithfeydd ar dir Llys Newydd ac i greu tomen slag ar union fan yr hen lys. O hynny ymlaen galwyd y lle yn "Llansamlet Spelter Works". Ddegawd yn ddiweddarach darlennwn am Dillwyn & Co. yn datblygu gweithfeydd ychwanegol ar yr un safle.

Er hynny mae cofnod fod pobl yr ardal yn dal i arddel yr enw Llys Newydd ar y tir yn 1896.

Erbyn 1873 roedd y trawsnewid yn gyflawn gyda lleoliad Gardd Morgannwg a'r Llys Newydd wedi ei droi yn Llansamlet Arsenic Works ar dir Llys

Newydd Marsh. Mae'n anodd dychmygu ffuglen fyddai'n newid Gardd Morgannwg yn Arsenic Works, ond dyna fu. Tybed beth a wnâi Lewys Glyn Cothi o hynny? Ai yno y byddai'n diweddu'r daith?

Ynteu a fyddai'n cymryd cam arall ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain? I weld Stadiwm Liberty, siopau'n llawn nwyddau, archfarchnadoedd lu, a chanolfan arddio fawr braf yno yn Llys Newydd?



Llys Newydd yn 1946. Ymddengys y byddai'r llys tua brig y llun – ychydig i'r chwith o'r canol.

Lleolir fy nghartref rhwng Ynys Tawe a'r Llys Newydd ar union fan yr hen weithfeydd Tir Canol a Thir Penri, ac o fewn canllath i'r Chemical Road enwog yn Nhreforys. Yma, erbyn hyn mae'r gerddi yn wyrdd a'r afon yn glir, ond wyddoch chi fod gweithredoedd y tî yn dweud na ddylid tyfu llyisiau na ffrwythau yma, rhag ofn fod gwenwyn yn y tir o hyd o dan ein traed yn rhywle...

Llys Newydd
Cyn i'r gwaith blannu creithiau – a rhoi'i ganr

Drwy ei gwm a'i wreiddiau,

Roedd nawdd yr hen feirdd yn hau
Y wlad i feithrin blodau.

Eu blodau oedd baledi – i noddwyr,
Cywyddau i'w llonni

Am eu ffrwythlon haelioni

A maint braint canu eu bri.

Bro enwog llawn bri a rhinwedd – bro iach

Hael braf fu'n edmygedd

I'r beirdd, ond daeth rheibio'i hedd

A gwanu y digonedd.

Yn nigonedd "Gardd Morgannwg" - gwelwyd

Y Gwales diolwg

A thir crin y wlad hinddrwg

A mallt: Abertawe'r mwg.

> parhad ar dudalen 10

GWLAD Y CHANTS!

Caru pêl-droed? Love football?

Cer amdani i greu 'chant' i gefnogi'n tîm yn EURO 2020. Write a Cymraeg or bilingual chant to support our team in EURO 2020.

Agored i bob oed: Open for all ages:
Cynradd Primary
Uwchradd Secondary
Oedolion Adults

Anfon dy recordiad at... Send your recording to...

datblygu@menterabertawe.org

Erbyn By
05-05-2021

MARW'R PARCH DERWYN MORRIS JONES

Tristwch yw cofnodi marw'r Parch Derwyn Morris Jones. Bydd colled fawr ar ei ôl yng nghymdeithasau a chapeli Cymraeg Abertawe. Yn frodor o'r Rhos, graddiodd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor cyn cael BD yng Ngholeg Bala-Bangor.



Cychwynnodd ei weinidogaeth yn Horeb, Penydarren, a newydd symud i'r Gellimanwydd, Rhydaman ydoedd pan alwyd ef i gynorthwyo rhieni torcalonnus Aberfan, ac yntau'n dal yn gaplan i Faer Merthyr. Bu ef a'r Parch Ivor Rees yn cynorthwyo rhieni gyda threfniadau

angladdau a chynnig cysur anodd ei roi. Dylanwodd y profiad ysgytwol hwn ar ei holl weinidogaeth, meddai.

Ar ôl gwasanaethu yng nghapel Gellimanwydd, daeth yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr. Roedd yn awdurdod ar emynyddiaeth Gymraeg, ac roedd ganddo ran all-weddol wrth i'r enwadau lunio Caneuon Ffydd, Cyfrannodd hefyd at lyfr ar hanes yr Annibynwyr.

Yn Abertawe roedd yn gefnogwr brwd i wahanol gymdeithasau, gan gynnwys Cymdeithasau Cymraeg Llandeiloferwallt a Threforys a Dosbarth Llenyddiaeth Abertawe.

Bydd Alun a Bethan, plant Derwyn ac Eileen, a'u pum o wyrion, yn hirae-thu ar ei ôl.

Llun: Derwyn ac Eileen ar daith y dosbarth Cymraeg i Würzburg yn 2012. Bydd teyrnged lawn yn Wiliam mis Mehefin



GARDD MORGANNWG —parhad

Mwg a llwch, hagrwrch fu'n llygru – yr ardd,
Er hyn, lle roedd mygu -
Y Gweilch well'n ailgylchu
A Swans a'u holl doniau sy'.

Nid doniau sydd otano - na'i egrwrch
O lygredd fu'n llwydo
Ond awen fyn flodeuo
Yn frith o amgylch y fro.

Nid bro lwyd o olion brwydrau - na bro
Hen brudd wedi'r drygau
Fu, ond bro'n gu heb 'run gwae
A rhith o olion creithiau.

Nodiadau a Lyfryddiaeth:

BBC (2009) Duke's trust's £281k for bridge:
<http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/7815846.stm>

Brookes, G (2016) A-Z of Swansea: Places-People-History. Amberley Publishing.
Claughton, Peter (2012) Silver and Zinc: Cardiganshire, Brittany, and Dillwyn & Co.

of Swansea: yn Welsh Mines and Mining No. 2:
<https://www.swansea.ac.uk/media/WMM2-Claughton-Dillwyn.pdf>

Daniel, I (1999) Gwaith Casnodyn. Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
Deulwyn, I (1908) Gwaith Barddonol Howel Swrddal a'i Fab Ieuan. Bangor Welsh Manuscripts Society
Hansard (1778)

Harries, G (Gol.) (1982) Gwŷr Liên Abertawe. Is-bwyllgor Llenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch

Johnson, D (1995) Gwaith Lewys Glyn Cothi. Gwasg Prifysgol Cymru
Lewys Glyn Cothi: <https://www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/llawysgrifau/yr-oesoedd-canol/barddoniaeth-lewys-glyn-cothi/#?c=&m=&s=&cv=123&xywh=-770%2C0%2C3793%2C4003>

Map 14eg Garrif: <http://www.bl.uk/onlinegallery/onlineex/maps/uk/004953638uswu1932.html>

ap 1938: <https://maps.nls.uk/view/102350055>
Powell, G (1764) Survey of Gower
Williams, W.S. (1908) Hanes a Hynafiaethau Llansamlet. Swyddfa'r Goleuad, Dolgellau.